1) **Why is the scheme being implemented?**

Answer: The stickers will let people know why their bags, bins or caddies have not been collected. It is important to ensure that people are putting the right items in the correct containers so that we can recycle and compost as much as possible.

2) **Why is the council threatening to fine me for recycling?**

Answer: The aim of the scheme is to ensure that people are placing their waste out correctly and putting the right items in the right bags or bins. This will help to increase recycling and also reduce street litter. Residents will only be fined if they repeatedly fail to present their waste correctly. At present, we are only recycling around 58% of waste, but the current target for Wales is 64%.

For every tonne of waste missed from the target, the Council can receive a fine of £200. If the city's recycling rate doesn't increase from 58% to 70%, which is the target for 2025, the total fine could in excess of £10m.

3) **Do the five stages outlined in the new campaign have to be consecutive to receive a fine? Or is there a time limit on when a breach in the five stage process lapses?**

Answer: Issuing a fixed penalty for incorrect presentation of waste only requires two stages, which are the issuing of a section 46 notice under the Environmental Protection Act, and then the actual issuing of the fixed penalty notice.

Residents will have to breach the scheme five times over a rolling 12 week period to receive a fixed penalty notice for contamination. The section 46 has no true end date, as long as the occupants remain.

However, we are introducing the pink sticker campaign to try to prevent the need to issue a fixed penalty, by giving residents three chances to get it right, before the enforcement stages of the campaign begin. Residents will have to breach the scheme five times over a rolling 12 week period to receive a fixed penalty notice.

4) **What if the bin was contaminated by someone walking down the street rather than by the resident? For example dumping crisp packets or other rubbish in the green garden waste bin as they walk past the property.**

   Answer: Crews are trained to identify such instances of contamination. Should you receive a sticker or a letter, but you believe that your bin/bag is not contaminated, please contact us and we will look into the matter for you.

5) **What happens if a person has already had a section 46 notice issued on them? Does the scheme still apply?**

   If a person has already had a section 46 notice served on them, then they will receive an immediate fixed penalty notice for not abiding by the legal notice which has been served. Given this, the educational stages of the campaign will not apply to the person in question.

6) **Does the scheme apply to elderly or disabled people? This may cause worry?**

   Answer: The pink sticker scheme applies to all, except those who have already had a Section 46 Notice served on them. The aim is to inform people why their bag hasn't been collected. There are lots of ways we can provide support to residents, who may not understand how to recycle correctly. We will consider all individual circumstances, so contact us to discuss how we can help.

7) **Will the information provided as part of the education and enforcement scheme be available in other languages other than English and Welsh?**

   Answer: The information provided on the Council's website can be translated into a number of languages using Google Translate. If a resident does not have access to the internet they are asked to call the C2C so alternative arrangements can be made.

   Alternatively, information is supplied in 14 different languages through the following link:

   https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/advice-in-other-languages/Pages/default.aspx

8) **If a waste load is contaminated with other waste, why can't the incorrect materials be removed by the council or the Council's contractor?**

Answer: It is not practical for refuse collectors to remove incorrect items. Incorrect items contaminate the rest of the load and cannot be collected. This is why this scheme is being introduced, to inform residents when the wrong materials are put in the containers provided.

9) **What happens if a resident moves into a new property and the previous owner or tenant has breached the scheme and has received warnings? Do these apply to the new owner or tenant who has moved into the property?**

Answer: No – the warnings only apply to an individual once the section 46 is issued. This is the legal notice which gives the Council the authority to issue a fixed penalty notice.

10) **Is there an appeals process during the five stage proves, if a resident doesn't agree that their waste was contaminated?**

Answer: There is no appeal to a section 46 notice. The Notice sets out the requirements of the service under the provisions of the Environmental Protection Act 1990. Following receipt of the Notice the residents will be required by law to comply with the arrangements for placing their waste out for collection.

A Fixed penalty notice discharges liability for prosecution in magistrate court. There is no right of appeal to the Council, breach of notice is a criminal offence not a civil offence which imposes a fine and provides an appeals process. The opportunity to disagree would be through the Magistrates Court.

The matter will be referred to the Magistrates' Court through Single Justice Procedure should the fixed penalty remain unpaid, or should you instruct Cardiff Council to do so.

The person who receives it has 21 days to appeal to the Magistrates' Court via this procedure.

Any enquiries or disputes regarding fixed penalties will not be progressed as part of Cardiff Council's Corporate Complaint Procedure or The Public Services Ombudsman for Wales and no formal response will be sent.

11) Does the five stage process apply to all the containers provided, so for example, if the green waste is contaminated one week and the green garden waste is contaminated the following week, does this count as two occurrences?

Answer: The scheme applies to the green bags for dry recyclables and the green compost bin/white re-useable sacks for green garden waste. In this scenario explained in the question, contaminating the green bags one week and the green bin/ re-useable sacks the next, will result in two stages of the scheme being breached.

12) How will collection crews know who recycling bags belong to?

If green recycling bags contain incorrect item/s, the crew will log the contamination to the property that the bags are directly outside.

In the case of a shared household, split into a number of flats, the crews may not know which flat the bags have come from. They will use their best reasoning in this case.

If they are unsure, crews will still report the contamination and Education and Enforcement Officers will visit and assess the correct course of action – this may include general or targeted information.

In the case of recycling bags piled within a collection point e.g. at the end of the lane, the crews will sticker all bags that contain incorrect items. They will make a note of the location on their in cab device. We will not auto generate education letters. However, if we note that recycling bags are persistently contaminated at this location, we may make a decision to send a Section 46 notice to all surrounding properties.

Please remember during the education stages, while we appreciate it may be frustrating to receive a letter incorrectly, no further action will be taken. No-one will ever incorrectly receive Fixed Penalty Notice if contaminated bags have not come from their property.

A) Pam fod y cynllun yn cael ei weithredu?

Ateb: Bydd y sticeri'n rhoi gwybod i bobl pam nad yw eu bagiau, eu biniau na'u cadis wedi'u casglu. Mae'n bwysig sicrhau bod pobl yn rhoi'r eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir fel y gallwn ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl.

B) Pam mae'r Cyngor yn bygwth rhoi dirwy i mi am ailgylchu?

Ateb: Nod y cynllun yw sicrhau bod pobl yn rhoi eu gwastraff allan yn gywir ac yn rhoi'r pethau cywir yn y bagiau neu'r biniau cywir. Bydd hyn yn helpu i gynyddu

ailgylchu a hefyd lleihau sbwriel ar y stryd. Bydd preswylwyr ond yn cael dirwy os ydynt yn methu â rhoi'r gwastraff allan yn gywir dro ar ôl tro. Ar hyn o bryd, rydym ond yn ailgylchu oddeutu 58% o wastraff, ond targed presennol Cymru yw 64%.

Am bob tunnell o wastraff sy'n cael ei cholli o'r targed, gall y Cyngor dderbyn dirwy o £200. Os na fydd cyfradd ailgylchu'r ddinas yn codi o 58% i 70%, sef y targed ar gyfer 2025, gallai'r ddirwy gyfan fod yn fwy na £10m.

C) **Oes rhaid i'r 5 cam a nodir yn yr ymgyrch newydd ddigwydd yn olynol er mwyn cael dirwy? Neu a oes terfyn amser o ran pryd y bydd diffyg cydymffurfiaeth yn y broses 5 cam yn dod i ben?**

Ateb: Mae rhoi cosb benodedig am gyflwyno gwastraff yn anghywir yn gofyn am ddau gam yn unig, sef cyhoeddi hysbysiad adran 46 o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, ac yna cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig.

Bydd rhaid i breswylwyr dorri'r cynllun bum gwaith dros gyfnod treigl o 12 wythnos i gael hysbysiad cosb benodedig am halogi. Nid oes dyddiad gorffen i'r hysbysiad adran 46, cyn belled â bod y meddianwyr yno o hyd.

Fodd bynnag, rydym yn cyflwyno'r ymgyrch sticer pinc i geisio osgoi'r angen i roi cosb benodedig, drwy roi tri siawns i breswylwyr wneud pethau'n iawn, cyn i gamau gorfodi'r ymgyrch ddechrau. Bydd rhaid i breswylwyr dorri'r cynllun bum gwaith dros gyfnod treigl o 12 wythnos i gael hysbysiad cosb benodedig.

D) Beth os yw bin yn cael ei lygru gan rywun sy'n cerdded i lawr y stryd yn hytrach na phreswylydd? Er enghraifft, gollwng pacedi creision neu sbwriel arall yn y bin gwastraff gardd wrth gerdded heibio'r eiddo.

Ateb: Hyfforddir criwiau i nodi achosion halogi o'r fath. Os ydych yn derbyn bathodyn neu lythyr, ond yn credu nad yw eich bin/bag wedi'i halogi, cysylltwch â ni a byddwn yn ymchwilio i'r mater i chi.

E) Beth sy'n digwydd os yw person eisoes wedi cael hysbysiad adran 46? Yw'r cynllun yn dal i fod yn berthnasol?

Os yw person eisoes wedi cael hysbysiad adran 46, yna bydd yn cael hysbysiad cosb benodedig ar unwaith am beidio â chydymffurfio â hysbysiad cyfreithiol a gyflwynwyd. O ystyried hyn, ni fydd camau addysgol yr ymgyrch yn berthnasol i'r person dan sylw.

F) A yw'r cynllun yn berthnasol i bobl oedrannus neu anabl? Gall hyn achosi pryder iddynt.

Ateb: Mae'r cynllun sticer pinc yn berthnasol i bawb, ac eithrio'r rhai sydd eisoes wedi cael Hysbysiad Adran 46. Y nod yw rhoi gwybod i bobl pam nad yw eu bag wedi cael ei gasglu. Mae llawer o ffyrdd y gallwn roi cymorth i breswylwyr, nad ydynt efallai'n deall sut i ailgylchu'n gywir. Byddwn yn ystyried unrhyw amgylchiadau unigol, felly cysylltwch â ni i drafod sut y gallwn ni helpu.

G) A fydd y wybodaeth a ddarperir yn rhan o'r cynllun addysg a gorfodi ar gael mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg a Saesneg?

Ateb: Bydd modd cyfieithu'r wybodaeth a ddarperir ar wefan y Cyngor i sawl iaith gan ddefnyddio Google Translate. Os nad oes gan breswylydd fynediad i'r rhyngrwyd gofynnir iddo ffonio C2C fel y gellir gwneud trefniadau eraill.

Fel arall, mae gwybodaeth ar gael mewn 14 iaith wahanol drwy'r ddolen hon:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/Cyngor-mewn-ieithoedd-eraill/Pages/default.aspx

H) Os yw llwyth gwastraff wedi'i halogi â gwastraff arall, pam na all y cyngor neu gontractwr y Cyngor dynnu'r deunyddiau anghywir?

Ateb: Nid yw'n ymarferol i gasglwyr gwastraff waredu eitemau anghywir. Mae eitemau anghywir yn halogi gweddill y llwyth, ac ni ellir ei gasglu. Dyma pam mae'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno, i roi gwybod i breswylwyr pan fydd y deunyddiau anghywir yn cael eu rhoi yn y cynwysyddion a ddarperir.

I) Beth sy'n digwydd os bydd preswylydd yn symud i eiddo newydd a bod y perchennog neu'r tenant blaenorol wedi torri amodau'r cynllun ac wedi cael rhybuddion? Yw'r rhain yn berthnasol i'r perchennog neu denant newydd sydd wedi symud i mewn i'r eiddo?

Ateb: Nac ydynt – mae'r rhybuddion ond yn berthnasol i unigolyn ar ôl i hysbysiad adran 46 gael ei gyflwyno. Dyma'r hysbysiad cyfreithiol sy'n rhoi'r awdurdod i'r Cyngor gyflwyno hysbysiad cosb benodedig.

J) A oes proses apelio yn ystod y 5 cam, os nad yw preswylydd yn cytuno bod ei wastraff wedi'i halogi?

Ateb: Does dim modd apelio hysbysiad adran 46. Mae'r Hysbysiad yn nodi gofynion y gwasanaeth dan ddarpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gofynnir i denantiaid, o dan y gyfraith, gydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer rhoi eu gwastraff allan i'w gasglu ar ôl derbyn Hysbysiad.

Mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhoi rhyddhad rhag atebolrwydd am erlyniad yn y llys ynadon. Does dim hawl i apelio i'r Cyngor, mae mynd yn groes i hysbysiad yn drosedd - nid trosedd sifil sy'n rhoi dirwy a phroses apeliadau. Byddai'r cyfle i anghytuno ar gael yn y Llys Ynadon.

Caiff y mater ei gyfeirio at y Llys Ynadon drwy Weithdrefn Cyfiawnder Sengl, os na thelir y gosb benodedig, neu os rhowch gyfarwyddyd i Gyngor Caerdydd wneud hyn.

Mae gan y person sy'n ei dderbyn 21 diwrnod i apelio i'r Llys Ynadon drwy'r weithdrefn hon.

Ni chaiff unrhyw ymholiadau ynglŷn â chosbau penodedig eu trin yn rhan o Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol Cyngor Caerdydd nac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac ni chewch ymateb ffurfiol ychwaith.

K) A yw'r broses 5 cam yn berthnasol i'r holl gynwysyddion a ddarperir, felly, er enghraifft, os yw gwastraff gwyrdd wedi'i halogi un wythnos a gwastraff gardd gwyrdd wedi'i halogi yr wythnos ganlynol, a yw hyn yn cyfrif fel dau ddigwyddiad?

Ateb: Mae'r cynllun yn berthnasol i'r bagiau gwyrdd ar gyfer deunydd ailgylchu sych a'r bin compost gwyrdd/sachau amldro gwyn ar gyfer gwastraff gardd gwyrdd. Yn y sefyllfa hon, fel yr eglurir yn y cwestiwn, bydd halogi bagiau gwyrdd un wythnos a bin gwyrdd/sachau amdro yr wythnos wedyn, yn arwain at dorri amodau dau gam o'r cynllun.

L) Sut y bydd criwiau casglu yn gwybod i bwy y mae bagiau ailgylchu yn perthyn?

Os yw bagiau ailgylchu gwyrdd yn cynnwys eitem/au anghywir, bydd y criw yn cofnodi'r halogiad ar gyfer yr eiddo y mae'r bagiau y tu allan iddo.

Yn achos aelwyd a rennir, wedi'i rhannu'n nifer o fflatiau, efallai na fydd y criwiau'n gwybod o ba fflat y daeth y bagiau. Byddant yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt yn yr achos hwn.

Os nad ydyn nhw'n siŵr, bydd criwiau'n dal i adrodd am yr halogiad a bydd Swyddogion Addysg a Gorfodi yn ymweld ac yn asesu'r camau gweithredu cywir – gall hyn gynnwys gwybodaeth gyffredinol neu wybodaeth wedi'i thargedu.

Yn achos bagiau ailgylchu sydd wedi'u pentyrru mewn pwynt casglu e.e. ar ben y lôn, bydd y criwiau'n rhoi sticer ar yr holl fagiau sy'n cynnwys eitemau anghywir. Byddant yn gwneud nodyn o'r lleoliad ar eu dyfais yn y cerbyd. Ni fyddwn yn cynhyrchu llythyrau addysg yn awtomatig. Fodd bynnag, os nodwn fod y bagiau ailgylchu'n cael eu halogi'n gyson yn y lleoliad hwn, gallwn wneud penderfyniad i anfon hysbysiad Adran 46 at bob eiddo cyfagos.

Cofiwch, er ein bod yn sylweddoli y gall fod yn rhwystredig derbyn llythyr ar gam, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach. Ni fydd neb yn cael Hysbysiad Cosb Benodedig ar gam os nad yw bagiau halogedig wedi dod o'u heiddo.